# Pennu Amcanion Llesiant – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4778A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant | 4 |
| Cynnal ein harchwiliad yn yr Awdurdod | 5 |
| Sut a phryd y gwnaeth yr Awdurdod bennu ei amcanion llesiant | 5 |
| Yr hyn a ganfuom | 7 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano | 11 |

# Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 56 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at gyrraedd pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf[1]. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant[2]. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025[3].

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I gyflawni hyn, rhaid i Awdurdod cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal[4].

4 Fe wnaethom ddylunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut y gallai da edrych.

5 Wrth ddylunio ein dull, fe wnaethom ystyried beth allem yn rhesymol ei ddisgwyl gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus fod yn gyfarwydd bellach â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a bod yn ceisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn derbyn bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi eu gwersi ar waith a sut y gallant wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau un flwyddyn cyn un o etholiadau'r Senedd ac yn diweddu un flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad canlynol y Senedd.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Cynnal ein harchwiliad yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- egluro sut y gwnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy gydol y broses o bennu ei amcanion llesiant;
- darparu sicrwydd ynghylch y cwestiwn i ba raddau y gwnaeth yr Awdurdod gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant; ac
- adnabod cyfleoedd i'r Awdurdod wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Roeddem yn amcanu at ateb y cwestiwn ar y cyfan, 'i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd'. Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A gafodd y broses a sefydlodd yr Awdurdod i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Awdurdod wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?

8 Fe wnaethom drafod amseriad yr archwiliad gyda'r Awdurdod, ac fe wnaethom deilwra'r modd y cyflawnwyd yr archwiliad i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol. Fe wnaethom gwblhau'r gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn ym mis Hydref a mis Tachwedd 2024.

9 Fe wnaethom gasglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- adolygu dogfennau allweddol; a
- chynnal cyfweliadau gyda phobl allweddol a fu'n rhan o bennu'r amcanion llesiant.

# Sut a phryd y gwnaeth yr Awdurdod bennu ei amcanion llesiant

10 Dechreuodd yr Awdurdod waith ar bennu amcanion llesiant newydd yn ystod 2023 ac yna fe gyhoeddodd ei amcanion newydd ym mis Mawrth 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r amcanion llesiant hynny.

11 Fe gyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion llesiant fel rhan o'i Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP).

**Arddangosyn 1: Amcanion llesiant ATA Gogledd Cymru rhwng 2024 a 2029**

**Ein Hegwyddor Pobl**

Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu llawn cymhelliant a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

---

**Ein Hegwyddor Atal**

Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

---

**Ein Hegwyddor Diogelu**

Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

---

**Ein Hegwyddor Ymateb**

Darparu ymateb brys effeithiol.

Bod yn barod i ymateb pan fyddwch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

---

**Ein Hegwyddor Amgylchedd**

Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

# Yr hyn a ganfuom

## Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd

### Fe wnaeth yr Awdurdod gymhwyso'r egwyddor ond ni wnaeth ystyried yn llawn sut i gysoni ei amcanion ag amcanion cyrff eraill

12 Mae'r Awdurdod wedi dysgu o gynlluniau corfforaethol blaenorol i wella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn fwriadol yn fwy hirdymor na chynlluniau gwella blynyddol blaenorol[5]. Daeth y newid yn dilyn myfyrio'n fewnol ynghylch cynlluniau blaenorol. Er enghraifft, fe geisiodd yr Awdurdod ganolbwyntio amcanion yn fwy ar y sector tân ac achub a'u gwneud yn haws i'w deall. Mae hyn yn dangos dull dysgu cadarnhaol sy'n helpu i gynorthwyo'r Awdurdod i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

13 Defnyddiodd yr Awdurdod amrywiaeth o ddata a chuddwybodaeth i ddrafftio ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol. Defnyddiodd yr Awdurdod ei ddadansoddiad o'r amgylchedd gweithredu strategol a data ar y galw a ragwelir i oleuo ei amcanion. Roedd hyn yn cynnwys ystod o feysydd risg, megis diwylliant, cyllid, a newid demograffig. Fe wnaeth hefyd gymhwyso gwersi a ddysgwyd a gwaith dadansoddi a gwblhawyd ar gyfer ei Adolygiad o Ddarpariaeth Frys, a gwblhawyd yn gynharach yn 2023. Mae'r Awdurdod hefyd wedi defnyddio ei guddwybodaeth fewnol i sicrhau bod amcanion adrannol yn cyd-fynd â rhai'r Awdurdod drwy'r sefydliad cyfan. Ar y cyfan, roedd hyn yn golygu bod gan yr Awdurdod sylfaen dystiolaeth eglur ar gyfer ei amcanion drwy'r sefydliad cyfan.

14 Fodd bynnag, ni wnaeth yr Awdurdod ystyried yn llawn sut y gallai gysoni ei amcanion â rhai cyrff cyhoeddus eraill i gynyddu'r effaith i'r eithaf. Ni wnaeth yr Awdurdod gwblhau dadansoddiad o sut y gallai gynyddu i'r eithaf feysydd ffocws cyffredin gyda chyrff cyhoeddus eraill wrth ddatblygu ei amcanion ei hun. Fodd bynnag, fe wnaeth gysoni pob amcan â nodau llesiant cenedlaethol a chynnwys amcanion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) o fewn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Mae hyn yn golygu, er ei fod yn ymwybodol, na wnaeth yr Awdurdod roi ystyriaeth lawn i berthynas ei amcanion ef â rhai cyrff eraill. Rydym yn cydnabod yr anhawster y mae'r Awdurdod yn ei wynebu o fod â BGCau lluosog i gysoni ei amcanion â hwy. Gallai gwneud hyn leihau'r risg bod partneriaid yn cymryd camau gweithredu sy'n dyblygu neu'n gwrthweithio camau gweithredu'r Awdurdod.

[5] Fe wnaeth newid yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ategu'r newid hwn i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswydd i bennu amcanion gwella blynyddol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

15 Er bod yr Awdurdod wedi amcanu at gynnwys trigolion yn ei broses, ni chafodd ymateb a oedd yn eu cynrychioli i gyd. Yn dilyn gwaith datblygu mewnol, fe ymgynghorodd yr Awdurdod â'r cyhoedd am 12 wythnos. Fe hyrwyddodd ei ymgynghoriad trwy daflenni, y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy negeseuon e-bost gan ddefnyddio cofrestr rhanddeiliaid yr Awdurdod. Cafodd yr Awdurdod 223 o ymatebion i gyd, yr oedd 48 (22%) ohonynt oddi wrth swyddogion yr Awdurdod. Mae proffil demograffig yr ymatebwyr yn awgrymu efallai na wnaeth yr ymgynghoriad gyrraedd amrywiaeth lawn y boblogaeth. Er enghraifft, dim ond dau ymateb a gafwyd yn Gymraeg. Gallai hyn olygu efallai nad yw effaith amcanion yr Awdurdod ar rai cymunedau'n cael ei deall yn llawn, gan gyfyngu ar ei lwyddiant o bosibl

16 Fodd bynnag, fe dynnodd yr Awdurdod ar farn y cyhoedd o ffynonellau eraill. Gan bod yr Awdurdod wedi ymgysylltu'n sylweddol â'r cyhoedd yn ystod yr Adolygiad o Ddarpariaeth Frys, roedd yn gallu defnyddio'r guddwybodaeth hon i oleuo'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Nododd swyddogion, er bod hyn yn fuddiol ar y cyfan, fod yr agosrwydd o ran amseriad at yr Adolygiad yn golygu bod peth dryswch ymhlith y cyhoedd yn ystod ei ymgynghoriad ynghylch ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol, gan gyfyngu ymhellach ar ei gyrhaeddiad. Cafodd yr Awdurdod fwy o safbwyntiau gan y cyhoedd trwy gwrdd â grwpiau cymunedol ledled Gogledd Cymru. Mae cynnwys yn effeithiol yn helpu cyrff i sicrhau eu bod yn ystyried barn y cymunedau amrywiol a wasanaethir ac yn eu cynnwys yn y broses o gyflawni eu hamcanion.

## Nid yw'r Awdurdod wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei amcanion

17 Mae'r Awdurdod yn fwriadol wedi hwyhau ei ddull cynllunio i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy eglur yn y tymor canolig. Yn flynyddol, mae hefyd yn bwriadu cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n nodi camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn. Mae'r dull hwn yn dangos bod yr Awdurdod yn cymryd golwg tymor hwy. Fodd bynnag, trwy bennu amcanion dros gyfnod hwy, megis dros ddegawd neu fwy, gallai hyn fod wedi ategu cyfeiriad strategol mwy eglur byth. Gallai hyn alluogi'r Awdurdod i lwyddo i gyflawni amcanion sy'n fwy o her, yn ogystal â bod gyson â'r egwyddor.

18 Fodd bynnag, cyfyngedig oedd ystyriaeth yr Awdurdod i sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer risgiau ac yn ymateb i risgiau i sicrhau y gall gyflawni ei amcanion. Ni wnaeth yr Awdurdod asesu na dyrannu'r adnoddau gofynnol i gyflawni camau gweithredu o fewn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Tra bo swyddogion wedi dangos ymwybyddiaeth o rai risgiau ac effeithiau peidio â darparu adnoddau eglur ar gyfer cynlluniau, mae'n golygu y gall fod ansicrwydd ynghylch pa mor realistig yw'r cynllun ac i ba raddau y gellir ei gyflawni. Mae deall yr adnoddau ariannol, dynol, ac eraill y mae eu hangen i gyflawni cynllun yn dyngedfennol i sicrhau y gellir ei roi ar waith yn llwyddiannus. Trwy fanylu ar sut y mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Gyllideb Flynyddol wedi'u cyfeirio tuag at gyflawni amcanion llesiant, er enghraifft, mae'n ei gwneud yn bosibl i adnoddau

gael eu cyfeirio'n eglur at flaenoriaethau allweddol. Ers y gwaith maes, mae swyddogion wedi datblygu dull achos busnes sy'n cynnwys amcanion llesiant ac adrannol. Mae hyn yn amodol ar gymeradwyaeth ym mis Mawrth 2025.

19 Yn yr un modd, mae'r Awdurdod yn dangos ymwybyddiaeth o gydweithio ond nid yw wedi manylu ar sut y bydd yn cefnogi gwaith i gyflawni ei amcanion. Fe wnaeth swyddogion amlinellu'r fforymau a fynychir gyda phartneriaid y sector cyhoeddus. Er bod gan rai fforymau ddiben eglur, statudol sy'n ymwneud â gwaith tân ac achub, nid yw'r Awdurdod wedi cysylltu'r gwaith hwn yn eglur â chyflawni ei amcanion nac wedi egluro'r manylder hwn mewn cynlluniau cyflawni ategol. O ganlyniad, nid yw'n glir sut y mae'r Awdurdod yn deall beth fydd yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth ar draws amcanion. Gan hynny, nid yw'n glir sut y mae'r Awdurdod yn ei sicrhau ei hun ynghylch cyfraniad ac atebolrwydd partneriaid. Fel a amlinellir uchod (paragraff 14), gall deall a chydlynu camau gweithredu gyda phartneriaid helpu i gynyddu'r effaith a gyflawnir i'r eithaf. Mae bod â dull cydweithio sydd wedi ei gynllunio'n helpu partneriaid i ddeall eu cyfrifoldebau, eu hymrwymiad, ac yna i fod yn atebol am ddeilliannau.

## Nid oes gan yr Awdurdod fesurau i ddeall cynnydd tuag at ei amcanion

20 Nid oes mesurau perfformiad yn eu lle i ddeall cynnydd tuag at amcanion. Mae adroddiadau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gofnodi gweithgarwch yn hytrach na'u deilliannau a'u heffaith ar y gymuned, yr Awdurdod, ac amcanion. Nid yw'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ond yn cynnwys y dangosyddion statudol a ragnodir gan Lywodraeth Cymru, nad ydynt yn gysylltiedig ag amcanion yr Awdurdod. Mae bod â deilliannau eglur, mesuradwy'n helpu'r Awdurdod i'w sicrhau ei hun ynghylch ei berfformiad a chymryd camau lliniarol os yw'r duedd o ran perfformiad yn mynd yn y cyfeiriad anghywir.

21 Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi datblygu pwyllgorau monitro ar gyfer pob amcan i fonitro cynnydd. Ar gyfer dau amcan, rhestrir pwyllgorau lluosog fel rhai sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd, a allai arwain at ddyblygu neu ddryswch ynglŷn â chwmpas gwaith.

22 Mae gan adrannau broses eglur ar gyfer cofnodi eu camau gweithredu'n chwarterol. Mae'r broses yn llywio adroddiadau i'r Uwch Dîm Arwain a'r Panel Gweithredol. Wedyn adroddir ar berfformiad wrth bob aelod o'r Awdurdod yn flynyddol. Mae hyn yn darparu proses eglur ar gyfer adrodd ar weithgarwch.

# Argymhellion

**Cyfleoedd ar gyfer cynllunio yn y dyfodol**

A1 Dylai'r Awdurdod adeiladu ar y cynnydd y mae wedi ei wneud o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant trwy:

1.1 Ystyried a dangos yn fwy eglur sut y mae ei amcanion yn cyd-fynd ag amcanion partneriaid i gynyddu i'r eithaf effaith amcanion mewn meysydd cyffredin.

1.2 Amlinellu'n fwy eglur sut y bydd y camau gweithredu i gyflawni ei amcanion llesiant yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth gydag eraill.

1.3 Ystyried a datblygu cyfleoedd cynnwys mwy effeithiol i sicrhau bod amrywiaeth lawn y gymuned a wasanaethir yn cael ei chynrychioli.

**Cyflawni'r cynllun cyfredol**

A2 Dylai'r Awdurdod ddefnyddio ei gynllun cyflawni i gryfhau'r cysondeb rhwng ei gynlluniau ariannol a chorfforaethol, megis ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig, fel ei fod yn gallu sicrhau bod adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer camau gweithredu i gyflawni ei amcanion llesiant dros y tymor canolig.

**Monitro'r cynllun cyfredol**

A3 Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad i ddatblygu ac adrodd yn derbyn mesurau deilliannau strategol sy'n cyd-fynd â'i amcanion llesiant fel y gall fynd ati'n effeithiol i fesur cynnydd yn eu herbyn, yn hytrach nac adrodd ar weithgarwch.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a’r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae’r tabl isod yn nodi’r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i roi arweiniad i’n proses o gasglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi’u defnyddio’n flaenorol yn ein harchwiliadau o roi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac a oleuwyd gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw’r rhestr hon, ond yn hytrach set enghreifftiol o nodweddion sy’n disgrifio sut allai da edrych.

| | |
|---|---|
| **I ba raddau y mae’r Awdurdod wedi gweithredu’n unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?** | |
| **Cynllunio: A gafodd y broses a sefydlodd yr Awdurdod i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw’r Awdurdod wedi defnyddio data a chudd-wybodaeth arall i ddeall angen, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?** | • Mae gan yr Awdurdod asesiad eglur a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i oleuo dealltwriaeth yr Awdurdod am y ‘sefyllfa fel y mae’ / angen byrdymor.<br>• Mae’r Awdurdod wedi pennu amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda am angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau’r dyfodol. Mae hyn yn debygol o ddod o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis: |

| | |
|---|---|
| | – Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Asesiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r boblogaeth<br>– Canlyniadau ymarferion cynnwys/ymgynghori lleol<br>– Monitro gwasanaethau a chwynion am wasanaethau<br>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br>– Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR) ac Asesiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>• Mae'r Awdurdod wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau er mwyn iddo allu ymdrin â chylchoedd negyddol a heriau rhwng y cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r Awdurdod wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r Awdurdod yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i helpu i ddethol ei amcanion llesiant. Mae'r gweithgarwch cynnwys hwnnw – boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae cynnwys yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **A yw'r Awdurdod wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig am sut y mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar yr hyn/yn berthnasol i'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |

| | |
|---|---|
| **A yw'r Awdurdod wedi dylunio'r amcanion i gyflawni manteision tymor hwy, ynghyd â diwallu anghenion byrdymor?** | • Mae'r Awdurdod wedi pennu amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u bwriadu i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r amcanion wedi'u bwriadu i ddiwallu anghenion yn y tymor byr a hwy. Lle pennwyd amcanion dros ffrâm amser fer a chanolig, maent wedi'u pennu yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |
| **Darparu adnoddau a chyflawni: A yw'r Awdurdod wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r Awdurdod wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion llesiant?** | • Dyrannwyd adnoddau i sicrhau bod yr amcanion yn gallu cael eu cyflawni dros y tymor byr a chanolig, ond mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried adnoddau a risgiau tymor hwy, a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r Awdurdod wedi dyrannu adnoddau i gyflawni manteision ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r Awdurdod wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion hwythau?** | • Mae'r Awdurdod yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a threfniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall wireddu uchelgeisiau trawsbynciol. |
| **Monitro ac adolygu: A yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?** | |

| | |
|---|---|
| **A yw'r Awdurdod wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?** | • Mae mesurau perfformiad wedi'u bwriadu i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. trwy ganolbwyntio ar ddeilliannau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac yn cyflawni manteision lluosog (gan gynnwys rhai ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Ceir 'edefyn aur' a fydd yn galluogi'r Awdurdod i adrodd yn eglur a thryloyw ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion. |
| **A yw'r Awdurdod yn ceisio dysgu o sut a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r Awdurdod yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon a ffordd sy'n cael effaith gref.<br>• Mae'r Awdurdod wedi dysgu o bennu amcanion llesiant blaenorol ac o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.<br>• Mae'r Awdurdod wedi neu'n bwriadu myfyrio ynghylch sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o ran pennu amcanion llesiant. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.